www.furthermaths.org.uk/wales		
Astudiaeth Achos	Christian Jones	
Cyfeiriad	Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn Albert Avenue Fflint CH6 5JZ	

Asudiaeth Achos:

Myfyriwr – Christian Jones

Darpariaeth Mathemateg Bellach:

Drwy gydol yr Ysgol Uwchradd, roedd Mathemateg yn bwnc hynod ddiddorol a deinamig. O gyflwyno Algebra ym Mlwyddyn 7, i rifau cymhlyg a matricsau yn y Safon Uwch, mae Mathemateg wedi darparu her gyson a gwerth chweil i mi. Mae'r defnydd o ystod eang o arfau mathemategol wedi cynyddu fy ngallu datrys problemau yn fawr, ac wedi fy ngalluogi i brofi ystod eang o gysyniadau rhyfedd a rhyfeddol.

Cyflwynwyd y posibilrwydd o gymryd Mathemateg Bellach gyntaf gan fy Nhiwtor Dosbarth, Mr Park, (a oedd yn athro Mathemateg ar lefel TGAU i mi hefyd), wrth gael fy annog i wneud cais am Rydychen. Er na chefais i mewn, un peth sylweddolais yw bod prifysgolion yn rhoi pwyslais mawr ar gymryd Mathemateg Bellach ar lefel Uwch, er mwyn symud ymlaen at radd Mathemateg.

Mae fy ysgol, Sant Richard Gwyn, wedi ffurfio partneriaeth Chweched Dosbarth gydag ysgol leol arall, Ysgol Uwchradd y Fflint, a galluogodd hyn Fathemateg Bellach UG i'w hamserlennu - 8 awr dros 2 wythnos. Cafodd hwn ei addysgu yn Ysgol Uwchradd y Fflint gan Mrs. Williams, a wnaeth waith gwych yn addysgu FP1 a FP2. Yn U2, daeth hyn yn llawer llai strwythuredig, ond gyda sesiynau tiwtorial gan Miss Hewitt, Mr Lunt a Mr. Palmer ar gyfer fy unedau Mecaneg ac Ystadegaeth, a chefnogaeth gwersi ar-lein FMSP helpodd hyn i mi gyflawni fy ngraddau Mathemateg

Cyflwynwyd FMSP i mi adeg TGAU, pan oedd y posibilrwydd o gymryd Mathemateg Bellach Safon Uwch yn cael ei drafod. Mynychais sesiwn blasu a chefais gipolwg ar bwnc yr wyf wedi mwynhau yn fawr ei astudio am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

Os gallwch wneud Mathemateg Lefel A yna byddwn i'n bendant yn argymell ystyried gwneud Mathemateg Bellach hefyd. Mae'r ddau gwrs yn cydweddu â'i gilydd, ac os astudir ochr yn ochr, mae'r Mathemateg Bellach yn darparu hwb anhygoel i'r sgiliau Mathemateg sydd eu hangen ar gyfer y Safon Uwch arferol. Yr unig wahaniaethau gwirioneddol rhwng y ddau yw'r cynnwys, a'r lefel o astudio annibynnol sydd ei angen. Wrth gwrs, mae yna sylfaen gref o gefnogaeth ar gyfer Mathemateg Bellach: hyfforddiant ar-lein, dyddiau astudio mewn prifysgolion cyfagos, a hyfforddiant wyneb yn wyneb sydd i gyd yn gwneud astudio Mathemateg Bellach yn hynod o hygyrch, hyd yn oed os nad yw eich ysgol yn ei gynnig fel opsiwn.

Nid dim ond eich gallu mathemategol sy'n gwella; mae Mathemateg Bellach yn helpu i ddatblygu llawer mwy o sgiliau. Er enghraifft, mae angen llawer o astudio annibynnol, sydd yn ei dro, yn gwella eich sgiliau rheoli amser. Hefyd, gwellais fy sgiliau cyfathrebu drwy gynorthwyo mewn addysgu a mentora blwyddyn 12 yn fy mlwyddyn A2.

Fel y dywedais uchod, mae prifysgolion yn hoff o Fathemateg Bellach, yn enwedig os ydych am gymryd Mathemateg tu hwnt i Safon Uwch - er bod rhai prifysgolion yn ei wneud yn ofynnol, mae AS Mathemateg Bellach bron yn ofyniad answyddogol! Rwyf hefyd yn meddwl bod defnyddio FMSP Cymru yn fonws enfawr, gan ei fod yn profi gallwch astudio yn effeithiol, effeithlon ac yn annibynnol. I Lefel A cefais 3A * ac A (A * A * mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach), ac mae'r graddau hyn wedi fy arwain i Brifysgol Caerfaddon, lle rwy'n mynd i astudio Mathemateg.